Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy

Ionawr 2026

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 14 Mai 2025. Noddir y Bil gan yr Adran Drafnidiaeth.

**2.** Mae'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn datgan fel a ganlyn:

> "*The Sustainable Aviation Fuel Bill introduces legislative measures to implement a revenue certainty mechanism to support sustainable aviation fuel (SAF) production in the UK.*
>
> *The Bill will enable the Secretary of State to designate a counterparty that is wholly owned by government and direct them to enter into private law contracts with SAF producers, guaranteeing a price for the sale of eligible SAF over a period.*"[2]

**3.** Mae enw hir y Bil yn nodi mai ei ddiben yw gwneud darpariaeth mewn perthynas â thanwydd hedfan cynaliadwy.

**4.** Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ar 15 Hydref 2025 a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 20 Hydref 2025[3]. Ar yr adeg y cytunwyd ar yr adroddiad hwn, roedd y Bil yn y cyfnod Adrodd.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fo Bil perthnasol gerbron Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**6.** Ar 9 Mehefin 2025, gosododd Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio (Ysgrifennydd y Cabinet) Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) mewn perthynas â'r Bil gerbron y Senedd.[4]

[1] Y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, fel y'i cyflwynwyd (Bil 240) (Saesneg yn unig)
[2] Nodiadau Esboniadol i'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, paragraffau 1 a 2 (Saesneg yn unig)
[3] Y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin (HL 138)
[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, 9 Mehefin 2025

**7.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, a’r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, adrodd ar y Memorandwm erbyn 26 Medi 2025.[5]

**8.** Asesiad Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1 i 15 (fel y nodir ym mharagraff 9 o'r Memorandwm). Mae’r Nodiadau Esboniadol i’r Bil yn nodi bod Llywodraeth y DU o’r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 16 i 19 o’r Bil hefyd.[6]

**9.** O ran barn Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am gydsyniad, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ym mharagraffau 25 a 26 o’r Memorandwm:

> “*Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen LCM ar gyfer cymalau 1, 2, 3, 4, 5, 12, 13, 14, a 15, yn ogystal â rhai agweddau ar gymalau 10 ac 11.*
>
> *Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU yn meddwl bod angen LCM ar gyfer cymalau 6, 7, 8 a 9, a rhai agweddau ar gymalau 10 ac 11. Serch hynny, am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 15-20, credaf mai'r ddadl gryfach yw eu bod yn bodloni'r prawf yn RhS29 ac felly rwy'n gosod LCM mewn perthynas â'r darpariaethau hynny.*”[7]

**10.** Gwnaethom adrodd ar y Memorandwm ar 23 Gorffennaf 2025 (ein hadroddiad cyntaf).[8]

**11.** Daeth ein hadroddiad cyntaf i ddau gasgliad, fel a ganlyn:

> “*Casgliad 1. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y’i nodir yn y Memorandwm, o’r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn unol â Rheol Sefydlog 29; mae hyn yn ddarostyngedig i’n barn ni a nodir yng nghasgliad 2* (…)
>
> *Casgliad 2. Ein barn ni yw bod cymalau 1 i 19 ac Atodlen 1 yn rhoi sylw i faterion datganoledig ac felly yn bodloni’r prawf yn*

[5] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, Mehefin 2025
[6] Nodiadau Esboniadol i’r Bil, Atodiad A – ‘Territorial extent and application in the United Kingdom’
[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, 9 Mehefin 2025, paragraffau 25 a 26
[8] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, Gorffennaf 2025

*Rheol Sefydlog 29. Felly, rydym yn ystyried y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil cyfan."*[9]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru

**12.** Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar 4 Tachwedd 2025, yn ceisio cydsyniad ar gyfer gwelliannau'r Llywodraeth a wnaed yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.[10]

**13.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes unwaith eto y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2, gyda dyddiad cau cychwynnol o 16 Ionawr 2026.[11]

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**14.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn ceisio cydsyniad i wneud gwelliannau i'r cymalau canlynol:

- Cymal 1 – Cyfarwyddyd i gynnig contract sicrwydd refeniw;
- Cymal 6 – Ardoll ar gyflenwyr;
- Cymal 8 – Gweinyddu'r ardoll ac anghydfodau.[12]

**15.** Mae Cymal 1 wedi'i ddiwygio er mwyn mewnosod isadrannau (5) a (6). Mae is-adran (5)(a) yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfarwyddo cwmni perthnasol ("*relevant company*") i gynorthwyo i nodi cynhyrchwyr tanwydd hedfan cynaliadwy, er mwyn i'r Ysgrifennydd Gwladol allu ystyried cynnig contract sicrwydd refeniw. Mae isadran (5)(b) yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud taliadau i'r cwmni perthnasol mewn cysylltiad ag unrhyw gymorth a ddarperir. Mae isadran (6) yn darparu bod y cwmni perthnasol, at y diben hwn, yn gwmni sy'n eiddo i un o Weinidogion y Goron.

[9] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, Gorffennaf 2025
[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, 4 Tachwedd 2025
[11] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, Tachwedd 2025
[12] Y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin (Bil HL 138)

**16.** Mae Cymal 6 wedi'i ddiwygio i ddarparu na fydd yr elw ardoll yn cael ei ddefnyddio i ariannu cost cydymffurfio â chyfarwyddyd o dan gymal 1 newydd, is-adran (5), a grynhoir uchod.

**17.** Mae Cymal 8 wedi'i ddiwygio er mwyn nodi rhagor o fanylion ynghylch y pwerau i geisio gwybodaeth. Mae Cymal 8(1)(b) yn darparu y caiff rheoliadau'r ardoll ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gasglu gwybodaeth a'i darparu i gwmni sy'n eiddo i'r Llywodraeth at ddiben cynorthwyo'r broses o weinyddu a gorfodi'r ardoll. Mae Cymal 8(2) yn darparu y caiff rheoliadau'r ardoll ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth at y diben hwnnw, naill ai i'r cwmni dan sylw neu i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**18.** Nid yw Llywodraeth Cymru yn ceisio cydsyniad ar gyfer mân ddiwygiadau i gymalau 4, 15, 16 ac i baragraff 6 o'r Atodlen i'r Bil.

**19.** Barn Llywodraeth y DU yw bod y gwelliannau a gyflwynwyd er ystyriaeth yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin yn gwbl dechnegol, ac felly, nad oes angen cynnig memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol yn eu cylch.[13] Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â barn Llywodraeth y DU ond dim ond mewn perthynas â'r gwelliannau i gymalau 4, 15, 16 ac i baragraff 6 o'r Atodlen i'r Bil.[14]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**20.** Ym mharagraff 7 o Femorandwm Rhif 2, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod mewn "cysylltiad rheolaidd" â swyddogion Llywodraeth y DU yn ystod y broses o ddatblygu'r Bil, a bod y "cysylltu hwnnw wedi parhau ar lefelau Gweinidogion a swyddogion yn ôl y gofyn".[15]

**21.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn mynd ymlaen i ddweud:

> "*Mae polisi hedfanaeth yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU. Mae natur hedfan yn y DU yn golygu bod llawer o deithwyr o Gymru yn defnyddio, neu'n gallu dewis defnyddio, meysydd awyr yn Lloegr sydd â goblygiadau i effeithiolrwydd posibl polisïau yng Nghymru.* (...)

[13] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, 4 Tachwedd 2025, paragraff 22
[14] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, 4 Tachwedd 2025, paragraff 23
[15] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, 4 Tachwedd 2025, paragraff 7

*Rydym yn ystyried sut y gall Cymru gefnogi datblygu a mabwysiadu technolegau hedfan mwy cynaliadwy orau.* (…)

… *rydym yn gefnogol o'r Bil, gan ei fod yn ystyried bod SAF yn ffordd o leihau allyriadau carbon dros dro, wrth i'r diwydiant fynd ati i ddatblygu awyrennau allyriadau sero newydd, megis awyrennau sy'n defnyddio tanwydd hydrogen a thrydan.*"[16]

**22.** Daw Ysgrifennydd y Cabinet i'r casgliad a ganlyn:

"… *mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda llywodraethau eraill yn y DU i gyflawni camau polisi cydgysylltiedig a fydd yn cyflawni ein targedau o ran lleihau allyriadau. Mae datgarboneiddio hedfan yn un o'n heriau byd-eang mwyaf ac mae hyn yn gofyn am weithredu ar lefel y DU gyfan trwy Fil ar gyfer y DU.*"[17]

**23.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r gwelliannau i'r cymalau y cyfeirir atynt ym Memorandwm Rhif 2.[18]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru

**24.** Wedi hynny, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach (Memorandwm Rhif 3) ar 7 Ionawr 2026, yn gofyn am gydsyniad i ddau welliant gan y Llywodraeth a gyflwynwyd i'w hystyried yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.[19]

**25.** Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes Femorandwm Rhif 3 at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, gyda dyddiad cau adrodd diwygiedig o 20 Ionawr 2026 ar gyfer Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3.[20]

[16] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, 4 Tachwedd 2025, paragraffau 26, 28 a 31
[17] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, 4 Tachwedd 2025, paragraff 33
[18] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, 4 Tachwedd 2025, paragraff 34
[19] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, 7 Ionawr 2026
[20] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, Ionawr 2026

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**26.** Mae Memorandwm Rhif 3 yn ceisio cydsyniad i ddiwygiadau i gymal 10 ac i gymal newydd gael ei fewnosod cyn cymal 15.[21]

**27.** Mae Cymal 6 yn gwneud darpariaeth lle gellir ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr tanwydd hedfan traddodiadol dalu ardoll, er mwyn i'r taliadau ardoll hynny gael eu defnyddio i ariannu taliadau a wneir i gynhyrchwyr tanwydd awyrennau cynaliadwy sy'n ymrwymo i gontractau sicrwydd refeniw. Bydd y contractau sicrwydd refeniw yn cael eu gweithredu gan gwmni sy'n eiddo i'r llywodraeth a elwir yn gwrthbarti dynodedig (“*designated counterparty*”) yn y Bil.

**28.** Mae Cymal 10 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ormodedd a gedwir gan y gwrthbarti dynodedig sy'n codi ar ôl i daliadau contract sicrwydd refeniw gael eu gwneud, gael ei ad-dalu i'r personau hynny sydd wedi talu'r ardoll.

**29.** Roedd cymal 10 yn darparu yn flaenorol, cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 10, fod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru *os* roedd y rheoliadau'n cynnwys darpariaethau a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (pe baent wedi'u cynnwys mewn Deddf gan y Senedd). Mae'r gofyniad ymgynghori hwnnw wedi'i ddileu o gymal 10, i'w ddisodli gan gymal 15 newydd (yn y Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor).[22]

**30.** Mae Cymal 15 (yn y Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor) yn darparu, cyn gwneud *unrhyw* rheoliadau o dan gymalau 1, 3, 10 neu 11 o'r Bil, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

**31.** Mae Memorandwm Rhif 3 yn nodi bod Llywodraeth y DU yn ystyried mai “mân welliannau” yw’r rhain, ac nad oes angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol pellach ar eu cyfer.[23]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**32.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ailadrodd y safbwyntiau a fynegwyd yn flaenorol yn y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 ar y rhesymau dros wneud y

[21] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, 7 Ionawr 2026, paragraff 10
[22] Bil HL 155 (fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor)
[23] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, 7 Ionawr 2026, paragraff 18

darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil[24] ac yn argymell bod y Senedd yn cefnogi'r gwelliannau ac yn rhoi ei chydsyniad.[25]

# 2. Trafodaethau'r Pwyllgor

**33.** Fe wnaethon ni ystyried y Memoranda yn ein cyfarfodydd ar 8 Rhagfyr 2025[26] a 19 Ionawr 2026, ac fe wnaethom ystyried ein hadroddiad a chytuno arno, yn ein cyfarfod ar 19 Ionawr 2026.[27]

## Ein barn ni

**34.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir ym Memoranda Rhif 2 a Rhif 3.

**35.** Nodwn, hefyd, safbwynt Llywodraeth y DU o ran cydsyniad.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir ym Memoranda Rhif 2 a Rhif 3, ynghylch darpariaethau'r Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 29.

**36.** Nodwn nad yw'r Bil yn dirprwyo unrhyw bwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru, a nodwn ymhellach fod pwerau dirprwyedig yn cael eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**37.** Diben polisi'r Bil, fel y'i nodir ym mharagraffau 3 a 4 o'r Memorandwm, yw diogelu'r amgylchedd a datblygu economaidd ac felly mae'r pwerau dirprwyedig a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, yn ystyried materion datganoledig at ddibenion Rheol Sefydlog 29.

**38.** Mae'r Bil, pan edrychir arno yn ei gyfanrwydd, yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl. I'r graddau y mae darpariaethau'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl, pe bai Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnig Bil tebyg, mae'n debyg y byddai y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd mewn rhai meysydd.

[24] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, 7 Ionawr 2026, paragraffau 20 i 27
[25] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy, 7 Ionawr 2026, paragraff 30
[26] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 8 Rhagfyr 2025
[27] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, 19 Ionawr 2026

## Ceisio cydsyniad

**39.** Yn ein hadroddiad cyntaf, daethom i’r casgliad y dylai fod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 16 i 19 o’r Bil, sef barn a rennir gan Lywodraeth y DU, ond nid Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 1.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet egluro a yw hi'n cytuno â chasgliad 2 o'n hadroddiad cyntaf ac os nad ydyw, beth yw'r goblygiadau ar gyfer unrhyw benderfyniad ar gydsyniad a wneir gan y Senedd.